

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 5) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 5) 2021.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

15 Rhagfyr 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.\) 2020](#) ("y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dod i rym

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau a'u bod yn dod i rym cyn iddynt allu cael eu gosod. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddiwynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ac yn cael effaith o 04:00 ar 15 Rhagfyr 2021 er mwyn:

- Dileu 11 gwlad o'r rhestr goch;
- Gwneud mân newidiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr.

Mae pob gwlad yn cael ei thynnu oddi ar y rhestr goch mewn ymateb i'r ffaith bod trosglwyddiad cymunedol Omicron nawr yn eang yn y DU ac yn y gwledydd nad

ydynt ar y rhestr goch. Fodd bynnag, er bod y rhestr goch nawr yn wag, bydd yn cael ei chadw yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i hwyluso ymateb cyflym i amrywiolion sy'n dod i'r amlwg.

Gwneir mân newidiadau i Ran 1 i'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr i sicrhau bod y rheoliadau'n gyson o ran y terminoleg a ddefnyddir.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.